
Care & Repair Cymru



DATHLU

# 25 MLYNEDD

1991 – 2016

**Gwella** Cartrefi, **Newid** Bywydau

www.careandrepair.org.uk

# O **ddechreuadau** bach

Cafodd Gofal a Thrwsio yn y Deyrnas Unedig ei eni yng Nghymru yn 1979 (Ferndale, y Rhondda) mewn ymateb i broblemau difrifol oedd yn wynebu pobl hŷn oedd yn berchnogion ac yn byw mewn tai anaddas i fyw ynddynt heb gyfleusterau sylfaenol. Dilynwyd y prosiect blaengar yn Ferndale gyda datblygiad 8 asiantaeth Gofal a Thrwsio yng Nghymru erbyn canol yr 80au. Cafodd datblygiad ei helpu drwy "Gynllun Asiantaeth a Gynorthwyir" gyda chefnogaeth y Swyddfa Gymreig, a 'Care & Repair Ltd' oedd ar y pryd yn helpu i ddatblygu asiantaethau ar draws Lloegr a Chymru.



Cynhaliwyd cynhadledd bwysig, 'Gofal a Thrwsio yng Nghymru – y Ffordd Ymlaen' ym mis Rhagfyr 1990, gyda nifer o randdeiliaid yn bresennol yn cynnwys Cyngor Defnyddwyr Cymru, y Swyddfa Gymreig, Care & Repair Cyf, Cynghorau Sir a Dosbarth Cymru, prosiectau Gofal a Thrwsio yng Nghymru a sefydliadau academaidd. Cytunodd y gynhadledd ar nifer o gamau gweithredu yn cynnwys cyllid ar gyfer y dyfodol ac amserlen ar gyfer datblygu asiantaethau, a sefydlu Care & Repair Cymru fel corff annibynnol ar wahân yn 1991/92 i arwain datblygiad pellach Gofal a Thrwsio yng Nghymru.

Drwy'r 1990au, gan gydnabod y problemau tai cynyddol oedd yn wynebu pobl hŷn a gwerth Gofal a Thrwsio, cynyddodd cyllid gan y Swyddfa Gymreig/Llywodraeth Cymru i alluogi asiantaethau presennol i ddatblygu a ffurfio asiantaethau newydd. Gyda Care & Repair Cymru yn arwain ar ddatblygu asiantaethau newydd, roedd deg asiantaeth wedi sefydlu erbyn 1993 ac ugain erbyn diwedd 1995. Yn 2003-04 cyhoeddodd Llywodraeth Cymru y byddai'n darparu 'cyllid estynedig' ar gyfer asiantaethau Gofal a Thrwsio i ddarparu gwasanaethau craidd Gofal a Thrwsio ar draws y wlad, a gyflwynwyd gan 22 asiantaeth.

Cynyddodd grant creiddiol Llywodraeth Cymru i'r mudiad i £4.9 miliwn yn 2009/10. Fodd bynnag, oherwydd gostyngiadau grant mewn ymateb i'r hinsawdd economaidd anodd diweddar yn 2013, dechreuodd taith o uno asiantaethau Gofal a Thrwsio gyda'r nod o ostwng costau rheoli a gorbenion er mwyn diogelu staff a gwasanaethau rheng flaen rhag effaith toriadau i grantiau. Erbyn diwedd 2016 bydd 13 asiantaeth yn cyflwyno gwasanaethau Gofal a Thrwsio ond bydd gwasanaeth i Gymru gyfan yn parhau.

Ym mis Medi 2015 newidiodd Care & Repair Cymru ei statws cyfreithiol o fod yn Gymdeithas Ddiwydiannol a Darbodus i ddod yn Elusen Gofrestredig gyda'r Comisiwn Elusennau er mwyn ei alluogi i ddatblygu ac amrywio ffrydiau cyllid i atodi cyllid grant gyda lefelau sylweddol o incwm elusennol.




# **Pam** ein bod ni'n bodoli?

Bu Gofal a Thrwsio yn **Hyrwyddwr Tai Pobl Hŷn** Cymru am flynyddoedd lawer. Mae ein hisbennawd newydd – sef **"Gwella Cartrefi, Newid Bywydau"** yn anelu i ddisgrifio'r hyn a wnawn, a hefyd yr effaith a gaiff ein gwaith ar fywydau'r bobl yr ydym yn eu helpu.

## EIN GWELEDIGAETH:

**RYDYM YN CREDU MEWN CYMRU LLE GALL POB PERSON HŶN FYW'N ANNIBYNNOL MEWN CARTREFI DIOGEL, CYNNES A HYGYRCH.**

# Y **problemau** yr awn i'r afael â nhw



Wrth i boblogaeth Cymru dyfu'n hŷn, rydym yn wynebu heriau strategol mawr i ddiwallu anghenion tai demograffig heneiddiol.

Gwelodd yr hinsawdd economaidd ers 2010 ostyngiad enfawr mewn cyllid ar gyfer gwasanaethau cyhoeddus gan Lywodraeth y Deyrnas Unedig ac mae'n debyg y bydd y blynyddoedd rhwng 2015-2020 yn gweld toriadau pellach mewn gwasanaethau cyhoeddus sydd eisoes dan bwysau. Y sefyllfa debygol fydd angen cynyddol am wasanaethau gan bobl hŷn ond llai o adnoddau i gyflenwi, gyda phwysau ar wasanaethau Iechyd a Gofal Cymdeithasol yn parhau i dyfu.

Cydnabyddir y byddai'n well gan y rhan fwyaf o bobl ddal i fyw yn eu cartrefi a'u cymunedau eu hunain wrth iddynt heneiddio ac felly dylai sicrhau fod tai prif ffrwd yn parhau'n addas i ddiwallu anghenion pobl hŷn ac i gefnogi pobl hŷn i fyw mor annibynnol ag sydd modd barhau'n flaenoriaeth. Mae hyn yn golygu fod ein gwaith yn helpu i wella tai oer a llaith sydd yn achosi peryglon gyda chodymau a phryderon am ddiogelwch neu na chafodd eu haddasu i'r diben yn bwysicach yn awr nag erioed.

Cytunir yn eang fod lle yr ydym yn byw yn cael effaith sylweddol iawn ar iechyd, llesiant ac ansawdd bywyd. Mae cartrefi mewn cyflwr gwael, anhygyrch ac oer yn cael effaith niweidiol ar ansawdd bywyd a llesiant y rhai sy'n byw ynddynt. Drwy fynd i'r afael â'r problemau yma a helpu pobl hŷn i fyw'n annibynnol, mae ein gwasanaethau hefyd yn atal neu'n gostwng y galw am wasanaethau meddyg teulu, gofal heb ei drefnu ymlaen llaw, galwadau ambiwlans, gofal preswyl a gofal cartref.



# **Beth** a wnawn a **Phwy** sy'n cael budd?

Bu **Gofal a Thrwsio yng Nghymru**, mewn partneriaeth gyda Llywodraeth Cymru, llywodraeth leol ac yn fwy diweddar gydag Iechyd, yn cyflwyno, esblygu ac arloesi gwasanaethau sy'n helpu pobl hŷn i barhau i fyw'n annibynnol yn eu cartrefi eu hunain am dros 30 mlynedd.

Mae **asiantaethau Gofal a Thrwsio** yn darparu gwasanaethau ymarferol, rheng flaen sy'n helpu'r her strategol o ddarparu cartrefi diogel, cynnes a hygyrch i bobl hŷn a'u helpu i fyw'n annibynnol yn eu cartrefi eu hunain cyhyd ag y dymunant.

> **"DARPARU CARTREFI DIOGEL, CYNNES A HYGYRCH I BOBL HŶN A'U HELPU I FYW'N ANNIBYNNOL YN EU CARTREFI EU HUNAIN CYHYD AG Y DYMUNANT"**

Mae **Care & Repair Cymru** yn ganolog wrth arwain a chryfhau gwasanaethau rheng-flaen a chynrychioli anghenion tai pobl hŷn

- Mewn rôl **arweinyddiaeth,** hyrwyddo anghenion tai pobl hŷn, cynrychioli asiantaethau Gofal a Thrwsio a llunio'r mudiad Gofal a Thrwsio.
- Sicrhau nad yw **ansawdd a chysondeb** gwasanaethau rheng flaen yn dibynnu ar ba ardal y mae pobl yn byw ynddi drwy gynnal rhaglen genedlaethol o hyfforddiant, rhwydweithiau, seminarau, cynadleddau a rheoli cronfa ddata genedlaethol CARIS.
- Diogelu a datblygu **brand ac enw da** Gofal a Thrwsio, gan sicrhau y caiff ei adnabod yn eang gan bobl hŷn ledled Cymru a'u bod yn ymddiried ynddo.
- Sicrhau nad yw gwasanaethau yn aros yn eu hunfan drwy fod yn **flaengar ac arloesi** syniadau newydd.
- **Hyrwyddo'r cysylltiadau rhwng Tai ac Iechyd** a datrysiadau ataliol ymarferol sy'n gostwng y galw ar y Gwasanaeth Iechyd Gwladol.
- **Gwella integreiddio a chydweithio** gyda sefydliadau eraill yn y trydydd sector, Iechyd, Tai a Gofal Cymdeithasol.
- **Hysbysu polisi** a datblygiad gwasanaeth i ddiwallu anghenion tai pobl hŷn gan ddefnyddio ein harbenigedd, tystiolaeth a gwerthusiad o ganlyniadau Gofal a Thrwsio.
- **Sicrhau mwy o gyllid** ar gyfer gwasanaethau drwy waith codi arian elusennol, cynigion prosiect a datblygu partneriaethau gyda sefydliadau eraill.
- **Helpu i gyflenwi gwasanaeth addasiadau tai gwell** yng Nghymru, gan ostwng cymhlethdodau ac amserau aros, a gwella canlyniadau.

# Ein hanes o lwyddiant mewn **arloesi**



Bu Care & Repair Cymru yn llwyddiannus wrth ddatblygu syniadau newydd ar gyfer gwasanaethau a help ar gyfer pobl hŷn, gan yn aml fynd â nhw o gynlluniau treialu a gweithgaredd ymylol i wasanaethau prif ffrwd.

Rhai o'n llwyddiannau mwyaf yw:

- **Gwasanaethau tasgmon,** yn darparu help cyflym iawn ac ymarferol ar dai, gwaith trwsio, addasiadau, diogelwch cartref, diogelwch tân, mesurau diogelwch a llawer o fathau eraill o waith ar gost isel neu'n ddi-dâl yn dibynnu ar anghenion lleol.
- **Rhaglen Addasiadau Brys.** Datblygwyd yn 2002/3 ac yn awr ar gael ledled Cymru yn helpu dros 16,000 o bobl yn flynyddol o fewn amser cyfartalog o 8 diwrnod, a gyda 30% o'r achosion yn helpu rhyddhau cyflymach o ysbyty.
- **Grantiau Byw Annibynnol.** Wedi'u cyflwyno mewn cynllun treialu yn 2011/12 a'u hailadrodd mewn blynyddoedd wedyn yn dilyn gwerthusiad annibynnol cryf, roedd y rhain yn tanlinellu partneriaeth rhwng Gofal a Thrwsio, Tai, Gofal Cymdeithasol ac Iechyd i fynd i'r afael â rhestri aros am Grantiau Cyfleusterau i'r Anabl (DFG), gan gynnwys hyblygrwydd i ganiatáu datrysiadau lleol i gael gwared â rhwystrau wrth gyflwyno DFG.
- **Gwasanaeth Ymdopi'n Well.** Prosiect 3 blynedd newydd ar y cyd gyda RNIB Cymru ac Action on Hearing Loss Cymru, gyda Care & Repair Cymru yn bartner arweiniol gyda chyllid gan Grant Trydydd Sector Gwasanaethau Cymdeithasol Cynaliadwy. Wedi'i lansio ym mlwyddyn ein pen-blwydd yn 25 oed, caiff y gwasanaeth newydd ei ddarparu allan o'r 13 asiantaeth Gofal a Thrwsio gan 13 o Weithwyr Achos arbenigol newydd fydd yn gweithio gydag Iechyd a Gofal Cymdeithasol yn lleol i ddynodi pobl hŷn eiddil ac agored i niwed sydd angen help gydag amgylchedd cartref diogel ac iach cyn iddynt gyrraedd pwynt argyfwng a chyn iddynt fynd i'r system statudol o ysbytai, meddygon teulu, ambiwlansiau neu ofal preswyl.

# **Sut** ydym ni'n gweithio?



Mae Gofal a Thrwsio bob amser wedi bod yn wasanaeth sy'n canolbwyntio ar y person ac yn darparu datrysiadau pwrpasol i broblemau ac anghenion. Bu ein dull gweithredu holistig yn ffactor allweddol yn llwyddiant Gofal a Thrwsio.

Mae timau amlddisgyblaeth yn cyflwyno ystod o wasanaethau gyda chyllid o grant y llywodraeth a hefyd o ffynonellau eraill megis cymdeithasau tai, llywodraeth leol a chyfraniadau elusennol.

Mae gwaith achos yn ganolog i'r gwasanaeth ac mae cleientiaid yn aml yn adeiladu perthynas agos gyda'u gweithiwr achos yn seiliedig ar ymddiriedaeth a hyder. Defnyddir yr ymweliad cartref, ymgysylltu â chleientiaid a chasglu gwybodaeth gan y gweithiwr achos i asesu cartrefi cleientiaid a'u hamgylchiadau personol ac ariannol cyn trafod a theilwra'r gwasanaethau sydd eu hangen i ddatrys unrhyw faterion.

Mae'r cyfuniad unigryw o waith achos sy'n canolbwyntio ar y person, arbenigedd technegol a sgiliau ymarferol yn bwynt gwerthu cryf ac unigryw i Gofal a Thrwsio.

Er bod llinynnau cyffredin cryf yn cysylltu holl asiantaethau Gofal a Thrwsio yng Nghymru, mae pob asiantaeth hefyd wedi datblygu gwasanaethau sy'n seiliedig ar anghenion a chyfleoedd lleol.

Yn olaf, mae gweithio partneriaeth yn un o'r allweddi i wasanaeth llwyddiannus Gofal a thrwsio ac rydym yn falch o'n dull gweithredu o gysylltu cleientiaid gyda'r ystod gyfan o wasanaethau statudol a thrydydd sector lleol.

Fel y dywedodd y Ganolfan Polisi a Heneiddio: "Mae cydweithio ar draws asiantaethau lleol o fudd i bobl hŷn. Mae themâu cyffredin yn seiliedig ar weithio partneriaeth cryfach - gwell gwybodaeth a mynediad i bob gwasanaeth."

# **Beth** yw ein gweledigaeth ar gyfer y dyfodol?

Mae Gofal a Thrwsio yn fwy perthnasol heddiw nag erioed. Mae ein gwreiddiau'n gadarn mewn Tai a chraidd yr hyn a ddarparwn fydd gwasanaethau sy'n helpu i wella cartrefi pobl hŷn fel y gallant barhau i fyw yno'n annibynnol. Fodd bynnag, mae ein perthnasedd wedi newid a chredwn y byddwn yn gynyddol berthnasol i Iechyd a Gofal Cymdeithasol sy'n amlwg yn symud yn gynyddol tuag at helpu pobl hŷn i fyw'n annibynnol yn eu cartrefi eu hunain a gwasanaethau ymyriad cynnar sy'n atal neu ohirio pwyntiau argyfwng megis derbyniadau ysbyty, gofal heb ei drefnu, ymweliadau meddygon teulu neu dderbyniadau i ofal preswyl hirdymor.

Ein profiad am dros 25 mlynedd yw fod rôl bwysig ar gyfer corff cenedlaethol cryf, Care & Repair Cymru, i arwain, cydlynu, sicrhau ansawdd a chysondeb, hyrwyddo dros bobl hŷn, arloesi, gwerthuso, hysbysu polisi da, diogelu a hyrwyddo'r brand a chodi mwy o gyllid ar gyfer mwy o wasanaethau. Credwn hefyd y dylai presenoldeb asiantaethau Gofal a Thrwsio ym mhob rhan o Gymru ar gyfer darparu gwasanaethau yn y rheng flaen gael ei ddiogelu a'i dyfu. Credwn ein bod yn berthnasol iawn i nod gyffredinol o wella ataliaeth mewn Iechyd a Gofal Cymdeithasol a gwella ansawdd bywyd a llesiant ar gyfer pobl hŷn.



Yn ogystal â chynyddu ein nod hanesyddol o helpu pobl hŷn i aros yn annibynnol yn eu cartrefi ein hunain, mae gennym hefyd rai nodau newydd penodol:

- Datblygu a chyflwyno ein gwasanaeth newydd **"Ymdopi'n Well"** – gyda nodweddion newydd pwysig
- Datblygu gwasanaeth newydd, **"Symud drwy Ddewis"** i gefnogi'r henoed mewn gwneud penderfyniadau a chynllunio opsiynau tai yn nes ymlaen mewn bywyd.
- Datblygu **"Cynllun Presgripsiwn Cartrefi Cynnes"**, yn gweithio gyda meddygon teulu i ddynodi pobl hŷn y mae byw mewn cartref oer a llaith yn ael effaith niweidiol ar eu hiechyd.

O ddechreuadau bach, datblygodd Gofal a Thrwsio yng Nghymru i fod y mudiad y mae heddiw gydag asiantaeth Gofal a Thrwsio yn gweithio ym mhob rhan o Gymru, dan arweiniad a gyda chefnogaeth Gofal a Thrwsio Cymru. **Edrychwn ymlaen i'r 25 mlynedd nesaf mor llwyddiannus â'r chwarter canrif cyntaf.**

**Dilynwch ni ar:**
@CRCymru Care & Repair Cymru
Ffoniwch ni ar: **02920 674830**
**www.careandrepair.org.uk**

Mae Care & Repair Cymru yn elusen gofrestredig: Rhif Elusen 1163542

Cefnogir gan Lywodraeth Cymru
Supported by Welsh Government